Llythyr at ddysgwyr yng Nghymru

9 Chwefror 2021

Annwyl Ddysgwr,

Y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau a Sgiliau Hanfodol Cymru

Fe wnaethom ysgrifennu atoch yn ddiweddar ynglŷn â'r trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch galwedigaethol cymeradwy ar gyfer 2021. Rydym ni'n gwybod bod hwn yn gyfnod ansicr iawn i unrhyw un sy'n astudio ar gyfer cymhwyster. Rydym am roi cymaint o wybodaeth ag y gallwn i chi, pan allwn. Heddiw, rydym wedi anfon y set gyntaf o ganllawiau i'ch athrawon a'ch darlithwyr am yr hyn a ddisgwylir ganddynt ar gyfer asesiadau haf 2021 a chadarnhau trefniadau ar gyfer cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau a Sgiliau Hanfodol Cymru.

Beth yw pwrpas y canllawiau ar gyfer athrawon a darlithwyr?

Pwrpas y canllawiau hyn yw cefnogi ysgolion a cholegau i ddyfarnu eich graddau yr haf hwn. Mae'n nodi gwybodaeth lefel uchel am y gofynion ar gyfer cynhyrchu Gradd a Bennir gan Ganolfan. Mae'n rhoi trosolwg o ba benderfyniadau y mae angen i athrawon eu gwneud, sut y dylent wneud y penderfyniadau hynny a pha fathau o dystiolaeth y dylid eu defnyddio i gefnogi'r penderfyniadau hynny. Erbyn diwedd mis Chwefror bydd CBAC yn darparu Fframweithiau Cymwysterau a fydd yn nodi'r gofynion ar gyfer pob cymhwyster. Bydd rhagor o wybodaeth am amserlenni ac apeliadau yn cael eu darparu'n fuan hefyd.

Sut bydd athrawon a darlithwyr yn pennu graddau?

Ysgolion a cholegau fydd yn dyfarnu eich graddau TGAU, UG neu Safon Uwch yn haf 2021. Byddan nhw'n dyfarnu'r graddau hyn yn seiliedig ar ddarnau o waith yr ydych wedi'u cwblhau yn ystod yr astudiaeth, yn unol â'r canllawiau.

Bydd eich ysgol neu goleg yn gallu dewis y darnau o waith y maen nhw'n eu defnyddio i lywio eu barn. Byddan nhw'n rhannu'r wybodaeth hon â chi a'r dull y byddant yn ei ddefnyddio i ddod i'w benderfyniad terfynol am y graddau y byddwch yn eu derbyn.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Bydd gan eich ysgol neu goleg gynlluniau i sicrhau bod eu penderfyniadau i bennu eich graddau mor deg a gwrthrychol â phosibl. A bydd canllawiau a hyfforddiant ar gael i'w cefnogi gyda hyn.

Sut bydd ansawdd graddau'n cael ei sicrhau?

Bydd gan ysgolion a cholegau brosesau sicrhau ansawdd mewnol ar waith i sicrhau bod penderfyniadau gradd mor gyson â phosibl (o fewn pynciau ac ar draws pynciau). Bydd CBAC yn darparu'r sicrwydd ansawdd allanol i wirio bod y prosesau y mae ysgolion a cholegau yn eu defnyddio i ddyfarnu graddau yn briodol. Yn ogystal, mae prosesau i hyrwyddo tryloywder dyfarnu graddau rhwng ysgolion a cholegau ledled Cymru yn cael eu harchwilio gan Lywodraeth Cymru, fel y gall dysgwyr fod yn hyderus yn eu graddau.

Sut bydd athrawon a darlithwyr yn cofnodi eu penderfyniadau?

Bydd eich athrawon a'ch darlithwyr yn cofnodi eu rhesymu a'u tystiolaeth fel y gallan nhw fod yn siŵr eu bod wedi gwneud y penderfyniad cywir am y graddau y maen nhw wedi'u pennu ar eich cyfer. Byddan nhw'n ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y mae gennych hawl iddynt, yn ogystal ag unrhyw ystyriaeth arbennig a allai fod yn berthnasol i chi fel unigolyn. Byddan nhw'n cadw cofnod o'r broses hon.

Beth sy'n digwydd os ydw i'n meddwl bod fy ngradd yn anghywir?

Bydd gofyn i ysgolion a cholegau fod â phroses a fydd yn caniatáu ichi ofyn am adolygiad o'ch gradd os credwch ei fod yn anghywir a / neu gywiro unrhyw wallau ffeithiol. Bydd gofyn i CBAC fod â phroses a fydd yn caniatáu apêl gradd ar sail gwall gweithdrefnol, fel canlyniad anghywir yn cael ei roi i rywun ag enw tebyg.

Mae'r manylion yn cael eu llunio ar frys a byddwn yn ysgrifennu atoch eto pan fyddwn wedi cytuno arnynt.

Beth am gymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau?

Heddiw (9 Chwefror) rydym wedi cadarnhau y bydd dyfarnu cymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cyd-fynd â'r dull o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch Cymeradwy yn haf 2021.

Beth am gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru?

Heddiw (9 Chwefror) rydym wedi cyhoeddi trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Bydd ysgolion a cholegau'n gallu darparu Gradd a Bennir gan Ganolfan i ddysgwyr nad ydyn nhw'n gallu cyrchu'r dulliau arferol o asesu oherwydd effaith Covid-19.

Diweddariadau rheolaidd ar asesiadau

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon yn rhoi rhywfaint o eglurder i chi ynglŷn â'r broses o ddyfarnu eich cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau a Sgiliau Hanfodol

Cymru yr haf hwn. Rydym yn gwybod y bydd gennych lawer o gwestiynau o hyd, a bod hwn yn gyfnod pryderus.

Rydym yn gweithio gyda CBAC, Llywodraeth Cymru, y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni a rhanddeiliaid eraill i gwblhau prosesau. Rydym yn parhau i weithio ar y trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, os na welsoch y wybodaeth a anfonwyd gennym yr wythnos diwethaf, mae'r wybodaeth ar gael yma. Yn y cyfamser, daliwch ati i ganolbwyntio ar eich astudiaethau a byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynlluniau cyn gynted a phosib. Os oes gennych unrhyw gwestiynau , cysylltwch â'ch athrawon neu ddarlithwyr neu cysylltwch â ni drwy e-bostio cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Eich adborth

Rydym yn mynd i ofyn am eich adborth mewn cyfres o arolygon ymhen ychydig wythnosau, fel y gallwn ddeall unrhyw bryderon sydd gennych. Rydym yn lansio grŵp cynghori pobl ifanc ym mis Mawrth, fel bod gennym adborth parhaus gan ddysgwyr. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â ni ar cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr

Letter for learners in Wales

9 February 2021

Dear Learner,

Update on arrangements for GCSEs, AS and A levels, Skills Challenge Certificate and Essential Skills Wales qualifications

We wrote to you recently about the assessment arrangements for approved GCSEs, AS and A levels and vocational qualifications for 2021. We know this is a very uncertain time for anyone studying for a qualification. We want to give you as much information as we can, when we can. Today, we've sent the first set of guidance to your teachers and lecturers about what is expected of them for assessments for Summer 2021 and confirmed arrangements for Skills Challenge Certificate and Essential Skills Wales qualifications.

What is the guidance for teachers and lecturers about?

This guidance is to support schools and colleges in their judgements of your grades this summer. It sets out high level information about the requirements for producing Centre Determined Grades (CDG). It gives an overview of what decisions teachers need to make, how they should make those decisions and what types of evidence should be used to support those decisions. By the end of February WJEC will provide Qualification Frameworks that will set out the requirements for each qualification. There will be more information about timelines and appeals provided shortly too.

How will teachers and lecturers determine grades?

Schools and colleges will award your GCSE, AS or A level grades in summer 2021. They will award these grades based on pieces of work that you have completed over the course of study, in line with the guidance provided to them.

Your school or college will be able to choose the pieces of work that they use to inform their judgement. They will share this information with you and the approach they will be taking to come to their final judgements about the grades you will receive.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Your school or college will have plans to make sure their judgements to determine your grades are as fair and objective as possible and there will be guidance and training available to support them with this.

How will grades be quality assured?

Schools and colleges will have internal quality assurance processes in place to ensure grade decisions are as consistent as possible (within subjects and across subjects). WJEC will provide the external quality assurance to check the processes that schools and colleges are using to award grades are appropriate. Additionally, processes to promote transparency of grade judgements between schools and colleges across Wales are being explored by Welsh Government, so that learners can be confident in their grades.

How will teachers and lecturers record their decisions?

Your teachers and lecturers will record their reasoning and evidence so that they can be sure that they have made the correct decision about the grades they have determined for you. They will take into account any reasonable adjustments you are entitled to, as well as any special consideration that might apply to you as an individual. They will keep a record of this process.

What happens if I think my grade is wrong?

Schools and colleges will be required to have a process which will allow you to ask for a review of your grade if you think it is wrong and /or correct any factual errors. WJEC will be required to have a process which will allow for an appeal of a grade on the grounds of a procedural error, such as the wrong result being given to someone with a similar name.

The details are being worked on as a matter of urgency and we will write to you again when they have been agreed.

What about Skills Challenge Certificate qualifications?

Today (9 February) we've confirmed that awarding the Skills Challenge Certificate qualifications will align with the approach for awarding Approved GCSEs, AS and A level qualifications in summer 2021.

What about Essential Skills Wales qualifications?

Today (9 February) we've announced alternative assessment arrangements for Essential Skills Wales qualifications. Schools and colleges will be able to provide a Centre Determined Grade for learners who are unable to access the usual methods of assessments due to the impact of Covid-19.

Regular updates on assessments

We hope this information gives you some clarity about the process of awarding your GCSE, AS or A level, Skills Challenge Certificate and Essential Skills Wales qualifications this summer. We know you will still have many questions, and this is an anxious time.

We are working with WJEC, Welsh Government, the Design and Delivery Advisory Group and other stakeholders to finalise processes. We continue to work on the arrangements for vocational qualifications, if you didn't see the information we sent last week, it is available here. In the meantime, keep focussing on your studies and we will keep you updated with the plans as soon as they are agreed. If you have any questions, please contact your teacher or lecturer or contact us via communications@qualificationswales.org.

Getting your feedback

We are going to ask for your feedback in a series of surveys, so we can understand any concerns you may have. We are launching a young people's advisory group in March, so we have ongoing feedback from learners. If you would like to get involved, please contact us at communications@qualificationswales.org.

Yours sincerely

Philip Blaker

Chief Executive